Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Rhoi Hawliau ar Waith mewn Gwasanaethau Cyhoeddus

Ionawr 2016

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd yn hybu hawliau dynol a dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, ac yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i dyfu'n hŷn ynddo, nid dim ond i rai, ond i bawb.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 029 2044 5030

E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com
Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Trydar: @comisiwnphcymru

Cynnwys

Beth yw Oedraniaeth?	5
Deddf Cydraddoldeb 2010	5
Beth yw Hawliau Dynol?	6
Beth yw dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau?	6
Egwyddorion PANEL	7
Pam mae Hawliau Dynol yn bwysig?	8
Beth yw'r gost o beidio â defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau?	9
Pa offerynnau hawliau dynol allaf fi eu defnyddio i gynnal a gwarchod hawliau pobl hŷn yng Nghymru?	9
Hawliau cymwys a hawliau llwyr	11
Defnyddio Offerynnau Hawliau Dynol	11
Beth mae pobl hŷn am ei gael o wasanaethau cyhoeddus?	13
Astudiaethau Achos ac Ymarfer Da	14
Atodiad A: Diffiniadau Deddf Cydraddoldeb	19
Atodiad B: Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn	20
Atodiad C: Deddf Hawliau Dynol 1998	22

Cyflwyniad

Mae oedraniaeth yn rhywbeth sy'n dal yn effeithio ar bobl hŷn ledled Cymru. Mae llawer o bobl hŷn yn teimlo bod gwasanaethau'n gwahaniaethu yn eu herbyn ar sail eu hoed, ac mae'r iaith a ddefnyddir am bobl hŷn yn aml yn ddifrïol ac amharchus.

A finnau'n Gomisiynydd, rwy'n manteisio ar bob cyfle i herio meddylfryd sy'n gwahaniaethu mewn unrhyw ffordd yn enwedig ar sail oed, gan nodi'n glir y cyfraniad pwysig a wnânt i'n cymunedau a pham mae ymarfer sy'n gwahaniaethu ar sail oed yn arwain at ganlyniadau gwaeth i bobl hŷn, yn y tymor byr a'r tymor hir.

Rwyf am ddatblygu'r wybodaeth a'r meddylfryd am sut mae adnabod a mynd i'r afael ag oedraniaeth a gwahaniaethu, a pham ei bod yn hanfodol defnyddio dulliau gweithredu yn seiliedig ar asedau i sichrau newid cadarnhaol a fydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl hŷn.

Mae'r hyfforddiant hwn yn adeiladu ar gyfres o sesiynau peilot llwyddiannus a ddarparwyd ledled Cymru. Y bwriad yw helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall yn well beth yw effaith oedraniaeth a gwahaniaethu ar unigolion, teuluoedd a chymunedau, a sut mae hyn yn aml iawn yn golygu nad yw gwasanaethau cyhoeddus yn diwallu anghenion pobl hŷn. Gan adeiladu ar y sesiynau peilot, mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio mwy hefyd ar amddiffyn hawliau pobl hŷn a defnyddio dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau.

Bydd gweithredu'r hyn a ddysgwch yn yr hyfforddiant hwn yn eich helpu i ddatblygu gwasanaethau mwy cynhwysol, sy'n defnyddio dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau, ac mae hyn yn hanfodol i ddiwallu anghenion pobl hŷn sy'n newid o hyd a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar eu rhan.

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Beth yw Oedraniaeth?

Ystyr oedraniaeth yw trin pobl yn wahanol oherwydd eu hoed neu'r hyn y tybir yw eu hoed. Mae'n fater difrifol sy'n gallu distrywio bywydau. Y term arall a ddefnyddir ar gyfer oedraniaeth yw gwahaniaethu ar sail oed ac mae hyn wedi'i wahardd yn unol â Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn golygu os byddwch chi'n profi hyn, mae amddiffyniad cyfreithiol gogyfer â hyn a gallwch wneud rhywbeth yn ei gylch.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb, ni chaiff pobl harasio, erlid na gwahaniaethu (Atodiad A) yn erbyn rhywun arall mewn cyflogaeth ac wrth ddarparu gwasanaethau a nwyddau oherwydd bod ganddynt unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd a chred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

Mae amddiffyniad hefyd yn erbyn gwahaniaethu lle tybir bod gan rywun un o'r nodweddion gwarchodedig neu os cânt eu cysylltu â rhywun sydd â nodwedd warchodedig (gwahaniaethu ar sail cysylltiad).

Beth yw hawliau dynol?

Hawliau dynol yw'r hawliau sylfaenol sydd gan bob un ohonom am ein bod yn ddynol. Eu bwriad yw creu amodau lle caiff pob un ohonom fyw ag urddas a datblygu i'n llawn botensial. Mae'r hawliau hyn yn berthnasol i bawb fel ei gilydd a dim ond mewn sefyllfaoedd penodol ac yn unol â'r gyfraith y gellir cymryd yr hawliau i ffwrdd. Maent yn ffordd bwysig o amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, gan gynnwys pobl hŷn, drwy osod rhwymedigaeth ar awdurdodau cyhoeddus – gan gynnwys y llywodraeth, ysbytai a gwasanaethau cymdeithasol – i drin pobl gan ddangos tegwch, cydraddoldeb, parch, urddas ac ymreolaeth.

Mae llawer o bobl yn meddwl mai dim ond ar gyfer gwledydd tramor y mae hawliau dynol yn berthnasol, neu eu bod yn bwnc cyfreithiol cymhleth. Ond mae hawliau dynol yn berthnasol i lawer o'r penderfyniadau a wna pobl a'r sefyllfaoedd y mae pobl yn eu hwynebu bob dydd. Mae hawliau dynol yn fwy na dim ond y gyfraith a mynd ag achosion i'r llys. Yn aml iawn, mae modd datrys problemau sy'n ymwneud â hawliau dynol wrth drafod y broblem a chael arweiniad wrth edrych ar fframweithiau hawliau dynol.

Beth yw dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau?

Mae dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau yn ddull lle mae offerynnau hawliau dynol yn cael eu defnyddio'n rhagweithiol (h.y. creu'r amodau lle caiff hawliau dynol eu mwynhau yn hytrach nag adnabod achosion o dorri'r hawliau a gwneud iawn amdanynt ar ôl iddynt ddigwydd) er mwyn cyflawni'r canlynol:

- grymuso pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus, neu 'ddeiliaid hawliau', i ddeall, hawlio a mwynhau eu hawliau dynol.
- gwella gallu ac atebolrwydd y sawl sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, neu 'ddeiliaid dyletswyddau' i barchu, amddiffyn a gweithredu hawliau.

Egwyddorion PANEL

Gall y newidiadau uchod olygu symudiad sylweddol mewn grym rhwng gwasanaethau a'r bobl sy'n eu defnyddio. Mae modd defnyddio egwyddorion PANEL i roi hwb i'r symudiad hwn mewn grym:

- **Cyfranogi:** mae gan bawb yr hawl i gyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd. Rhaid i gyfranogiad fod yn weithredol, yn rhydd, yn ystyrlon ac yn rhoi sylw i faterion yn ymwneud â hygyrchedd, gan gynnwys mynediad at wybodaeth mewn iaith ac ar ffurf y gellir ei deall.
- **Atebolrwydd:** y rheini sydd â dyletswydd i amddiffyn hawliau; mae hyn yn gofyn am fonitro effeithiol a ffyrdd effeithiol o wneud iawn. Er mwyn i atebolrwydd fod yn effeithiol, rhaid cael deddfau, polisïau, sefydliadau, mecanweithiau gwneud iawn a gweithdrefnau gweinyddol priodol er mwyn sicrhau hawliau dynol.
- **Dim gwahaniaethu:** rhaid gwahardd, atal a dileu pob ffurf ar wahaniaethu wrth geisio sicrhau'r hawliau.
- **Grymuso:** dylai pawb wybod eu hawliau a chael cymorth i gymryd rhan mewn penderfyniadau, ac i hawlio eu hawliau lle bo angen hynny.
- **Cyfreithlondeb:** dylai awdurdodau cyhoeddus fynd ati'n benodol i weithredu'r Ddeddf Hawliau Dynol a gwneud cysylltiadau â safonau hawliau dynol rhyngwladol a rhanbarthol.

Pam mae hawliau dynol yn bwysig?

Mae dwy brif ddadl sy'n egluro pam mae hawliau dynol a dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau yn bwysig. Yr un gyntaf yw bod gan ddull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau werth moesol hanfodol: dyma'r peth priodol i'w wneud. Yr ail ddadl yw bod dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau yn gwneud synnwyr busnes da: mae'n arwain at ganlyniadau gwell sy'n fwy cynaliadwy.

Hawliau dynol yw'r peth priodol i'w wneud. Maent yn:

- Cynnig ffyrdd newydd o fynd i'r afael â'r broblem y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei hwynebu ynghylch sut mae cadw bodau dynol, yn hytrach na 'systemau' neu 'dargedau', wrth wraidd y gwasanaethau hyn.
- Cyfrannu at gydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol drwy roi anogaeth i ystyried ystod eang o grwpiau cymdeithasol.

Mae hawliau dynol yn gwneud synnwyr busnes da. Maent yn:

- Sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn diwallu eu rhwymedigaethau cyfreithiol.
- Darparu fframwaith i helpu i wneud penderfyniadau a lliniaru risg.
- Gallu rhoi canllawiau mewn sefyllfaoedd amwys ac egluro disgwyliadau am driniaeth deg gydag urddas.
- Gallu hyrwyddo ansawdd ac atebolrwydd.
- Helpu i sicrhau proses penderfynu deg i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi, ailgynllunio gwasanaethau a phenderfyniadau ynghylch adnoddau, ond nid ydynt yn cael gwared ar y dewisiadau anodd ynghylch lle dylid gwario'r adnoddau.

Beth yw'r gost o beidio â defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau?

Os diystyrir hawliau wrth gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau, mae perygl y bydd y gwasanaethau yn rhy generig; dull gweithredu 'yr un ateb yn addas i bawb' nad yw'n diwallu anghenion pobl. Mae hyn, yn ei dro, yn golygu y gall pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ddychwelyd dro ar ôl tro gyda'r un broblem neu broblem sydd wedi gwaethygu. Gallent hefyd gyflwyno cwyn neu hyd yn oed geisio cyngor cyfreithiol am gyfreitha. A'r pwysau ariannol fel y mae ar hyn o bryd, mae hyn yn cyfeirio adnoddau at reoli argyfyngau, ymateb i gwynion a delio ag achosion o gyfreitha, yn hytrach na defnyddio adnoddau i gyfrannu at les pobl, diogelu ac atal.

Pa offerynnau hawliau dynol allaf fi eu defnyddio i gynnal a gwarchod hawliau pobl hŷn yng Nghymru?

Caiff hawliau eu hamddiffyn gan amrywiaeth o offerynnau rhyngwladol ar hawliau dynol sy'n cynnwys rhwymedigaethau i wladwriaethau a hawliau i unigolion yn y wladwriaeth honno. Mae'r offerynnau hawliau dynol hyn yn cael eu monitro'n rhyngwladol, er nad ydynt yn cael eu gorfodi'n uniongyrchol yn llysoedd y DU. Mae offerynnau hawliau dynol o'r fath yn cynnwys:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Pob Ffurf ar Wahaniaethu yn erbyn Menywod
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Yng Nghymru, mae statws cyfreithiol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi cael ei gryfhau ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Er nad oes gan bobl hŷn eu confensiwn eu hunain, mae canllawiau ar eu cyfer a ddarperir yn Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar Bobl Hŷn (Atodiad B). Yng Nghymru, disgwylir i awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyledus i'r egwyddorion hyn wrth gyflawni swyddogaethau yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

Yn y DU, mae hawliau dynol yn cael eu hamddiffyn yn bennaf gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR). Cafodd y confensiwn ei ddrafftio gan bob gwladwriaeth sydd ar Gyngor Ewrop - gan gynnwys y DU - a daeth hyn i rym ym 1953. Mae'r Confensiwn yn cynnwys cyfres o Erthyglau: datganiadau cryno yn diffinio hawl neu ryddid, ynghyd ag unrhyw eithriadau a ganiateir. Mae'r hawliau yn y Confensiwn yn berthnasol i bawb yn y DU.

Deddf Hawliau Dynol 1998 (Atodiad C) sy'n ymgorffori'r rhan fwyaf o'r hawliau a'r rhyddid a geir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn uniongyrchol fel rhan o gyfraith y DU. Mae hyn yn golygu y gellir dadlau achosion sy'n seiliedig ar yr hawliau a'r rhyddid sydd yn Ddeddf mewn llys neu dribiwnlys yn y DU. Mae'n golygu hefyd y dylid dehongli a defnyddio pob deddfwriaeth arall mewn modd sy'n gyson â'r hawliau yn y Ddeddf. Mae dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus (e.e. ysbytai, awdurdodau lleol) i weithredu'n unol â hawliau'r Confensiwn ac felly mae'n rhaid i swyddogion cyhoeddus ddeall hawliau dynol a'u hystyried yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae hyn yn berthnasol pa un ai bod swyddogion yn darparu gwasanaeth yn uniongyrchol i'r cyhoedd neu'n llunio polisïau neu weithdrefnau newydd.

Hawliau cymwys a hawliau llwyr

Gelwir rhai hawliau'n hawliau 'llwyr'. Mae hyn yn golygu nad oes modd cyfyngu arnynt o gwbl o dan unrhyw amgylchiadau. Mae hawliau eraill yn rhai nad ydynt yn rhai llwyr (h.y. maent yn gyfyngedig neu'n gymwys) ac mae modd cyfyngu arnynt o dan amodau penodol, fel amddiffyn hawliau pobl eraill neu'r gymuned yn gyffredinol. Mae'r amodau sy'n berthnasol o ran eu cyfyngu wedi'u nodi yn yr erthygl sy'n esbonio'r hawl. I ystyried a yw cyfyngu ar hawl gymwys yn gyfiawn, mae'n werth ystyried y cwestiynau canlynol:

- Cyfreithlondeb: a oes sail gyfreithiol dros gyfyngu ar yr hawl?
- A oes nod neu gyfiawnhad cyfreithlon dros y cyfyngiad megis amddiffyn iechyd y cyhoedd neu amddiffyn hawliau dynol pobl eraill?
- A yw'n weithred gymesur (Atodiad C): ai dyma'r cyfyngiad angenrheidiol isaf posib ar yr hawl?

Defnyddio offerynnau hawliau dynol

Mae'n bwysig cofio nad yw hawliau dynol yn golygu bod ateb 'cywir neu anghywir' bob amser. Gall hawliau dynol helpu i sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau - mewn amgylchedd gwasanaethau cyhoeddus sy'n aml yn brysur ac yn gyflym - yn un deg, gyda'r unigolyn yn greiddiol iddi. Dylai defnyddio fframwaith hawliau dynol eich helpu i wneud y penderfyniad gorau o dan yr amgylchiadau. Mae Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban wedi llunio siart llif (FAIR) i helpu i feddwl a gwneud penderfyniadau ynghylch senarios sydd â goblygiadau hawliau dynol (http://www.scottishhumanrights.com/careaboutrights/flowchart).

Ffeithiau

- Beth yw profiad yr unigolyn?
- A yw llais yr unigolyn yn cael ei glywed ac os nad yw, a oes angen cymorth arnynt i sicrhau hynny?
- Beth yw'r ffeithiau pwysig i'w deall?

Dadansoddiad o'r hawliau sydd yn y fantol

- Beth yw'r hawliau dynol neu'r materion yn y fantol?
- A yw'r hawl i fywyd neu'r hawl i beidio â chael eich trin yn annynol na'n ddiraddiol yn y fantol? Os felly, mae'r hawliau hyn yn hawliau llwyr ac nid oes modd cyfyngu arnynt.
- A oes modd cyfyngu ar yr hawl? Beth yw'r cyfiawnhad dros gyfyngu ar yr hawl?
- A yw'r cyfyngiad ar yr hawl yn 'gymesur'? (h.y. ai dyma'r cyfyngiad angenrheidiol lleiaf posibl i gyrraedd y nod neu a yw'r ymateb yn ormodol?

Nodi cyfrifoldebau cyffredin

- Pa newidiadau sy'n angenrheidiol?
- Pwy sydd â chyfrifoldeb dros helpu i gyflawni'r newidiadau angenrheidiol?

Adolygu camau

- A yw'r camau a gymerwyd wedi cael eu cofnodi a'u hadolygu ac a yw'r unigolyn yr effeithiwyd arno wedi bod yn rhan o'r broses?

Beth mae pobl hŷn am ei gael o wasanaethau cyhoeddus?

- Bod yn ddiogel
- Cael gofal da
- Cael eu gwella lle bo hynny'n bosibl
- Cael cymorth i fyw'n annibynnol cyn hired ag y bo modd ac i wneud y pethau sy'n rhoi ystyr a gwerth i'w bywydau
- Cael eu trin ag urddas a pharch
- Cael eu trin fel bod gwerth iddynt a'u bod yn gallu cyfrannu

Bydd pob un ohonom yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus rywbryd yn ein bywydau. I bobl hŷn, mae hyn yn aml iawn yn golygu cael gofal neu gymorth gan y gwasanaethau iechyd neu'r gwasanaethau cymdeithasol, yn aml pan fyddant fwyaf agored i niwed. Mewn mwy nag un ffordd, mae gwerthoedd hawliau dynol yr un fath â'r gwerthoedd sydd wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus da.

Astudiaeth Achos: Ysbyty

Gwilym, 83

Teulu/ Tai: Mae'n byw mewn llety â chefnogaeth sydd wedi cael ei addasu ac mae'r awdurdod lleol yn darparu gofal cartref. Mae ei ferch yn ymweld bron pob wythnos. Mae Gwilym yn yr ysbyty ar hyn o bryd gan fod ganddo gerrig yn yr arennau.

Bywoliaeth: Arferai ffermio, ond gan fod ganddo anableddau hirdymor - mae Gwilym yn ddall ac ond yn gallu symud rhywfaint - mae wedi hawlio budd-daliadau iechyd ers oddeutu 15 mlynedd.

Iechyd Corfforol: Da ar y cyfan.

Diddordebau: Garddio a cherdded y ci.

Yng ngeiriau Gwilym:

"Rydw i'n casáu bod yma. Maen nhw'n dweud bod angen i mi gymryd moddion gweithio'r corff er mwyn fy helpu i basio'r cerrig sydd yn yr arennau, ond alla i ddim dioddef y boen. Rydw i wedi erfyn arnyn nhw i beidio â rhoi'r moddion i mi. Dydw i ddim yn gallu gweld beth maen nhw'n ei roi i mi ac maen nhw'n colli amynedd gyda mi pan rydw i'n holi beth rydw i'n ei gymryd. Maen nhw'n dweud bod yn rhaid i mi gymryd y moddion i weithio'r corff ac wedi dweud wrtha i am beidio â gwneud ffŷs. Maen nhw'n fy nhrin i fel plentyn.

"Pan rydw i'n cymryd y moddion gweithio'r corff, dydw i ddim yn gallu cyrraedd y toiled yn ddigon cyflym. Dydw i ddim yn gwybod fy ffordd o gwmpas gan eu bod yn fy symud o ward i ward o hyd. Rydw i wedi baeddu fy hun sawl gwaith erbyn hyn ac wedi gorfod mynd i'r ystafell ymolchi i ymolchi ac i olchi fy nillad. Mae'n codi cywilydd arna i. Rydw i eisiau mynd adref. Rydw i'n gwybod lle mae popeth yn fanno. Mae gen i gi sy'n fy helpu i symud o gwmpas y llefydd sy'n ddiarth i mi.

"Dydw i ddim yn gwybod sut mae cael diod heb darfu ar y nyrsys neu'r cleifion eraill. Ac mae bwyd yn broblem. Dydw i ddim yn deall beth maen nhw'n ei olygu wrth 'y man bwyd dynodedig' ac felly rydw i wedi methu ambell bryd. Weithiau, maen nhw'n dod â'r bwyd i mi, er dydw i ddim bob amser yn gwybod ei fod yno a hyd yn oed pan fydda i'n chwilio am y bwyd ac yn ei deimlo, dydw i ddim yn gwybod beth sydd ar yr hambwrdd. Mi losgais fy nghoesau un diwrnod wrth i mi ei daro drosof fi fy hun yn ddamweiniol."

Ymarfer Da Cysylltiedig

Gan ddefnyddio egwyddorion hawliau dynol, aeth Grŵp Prosiect Hawliau Dynol Hydradiad a Maeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ati i ddatblygu pecyn ar gyfer rheolwyr wardiau i wella safonau gofal ym maes maeth a hydradiad. Dyma'r cynseiliau sydd wrth wraidd eu pecyn:

- Mae maeth a hydradiad yn bwysig i amddiffyn a hyrwyddo'r hawl i fyw.
- Mae sicrhau bod cleifion yn cael maeth a hydradiad o ansawdd uchel yn elfen hanfodol ar ofal ac maent yn rhagofynion sylfaenol i gefnogi'r broses gwella.
- Mae maeth a hydradiad yn ffactorau pwysig sy'n dylanwadu ar ganlyniadau clinigol cleifion a hefyd eu boddhad gydag ansawdd y gofal a ddarperir a'r arhosiad yn yr ysbyty yn gyffredinol.

Mae'r pecyn a'r wybodaeth ar gael i'w defnyddio: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/70331

Achos Cyfreithiol

Roedd menyw yn dioddef o ganser yr ysgyfaint nad oedd modd gwella ohono a chafodd ei hanfon i'r ysbyty yn dilyn damwain ffordd. Rhoddodd yr ysbyty hysbysiad Peidio Dadebru Cardio-Anadlol (DNACPR) ar ei ffeil feddygol heb ymgynghori â hi na'i theulu. Pan fynegodd ei theulu bryder, ymgynghorwyd â hwy a rhoddwyd ail hysbysiad ar ffeil y fenyw. Er ei bod yn gallu gwneud penderfyniadau am driniaeth feddygol, ni chafodd y claf fod yn rhan o'r penderfyniadau i roi'r hysbysiadau hyn ar ei ffeil oherwydd bod y meddygon yn credu y byddai'n achosi trallod iddi.

Defnyddiwyd hawliau dynol yn y senario hwn ac aethpwyd â'r achos i lys (R. (ar gais Tracey) v Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Ysbytai Prifysgol Caergrawnt (2014). Yn ôl y llys dylid rhagdybio y bydd y claf yn rhan o benderfyniad mor bwysig a byddai'n rhaid cael rhesymau argyhoeddedig i beidio â'i chynnwys. Byddai angen i'r rhesymau argyhoeddedig gynnwys risg o niwed corfforol neu seicolegol, yn hytrach na thrallod yn unig. Datganodd y llys fod methiant yr ysbyty i ymgynghori â'r claf hwn yn eu penderfyniad i roi hysbysiad DNACPR yn ei nodiadau yn anghyfreithlon ac yn torri amodau Erthygl 8 y Ddeddf Hawliau Dynol (yn benodol, ei hawl i gael cywirdeb corfforol a pharchu ymreolaeth yn unol â'r Erthygl).

Astudiaeth Achos: Amgylchedd Cartref

Betty, 62

Teulu/ Tai: Cael cymorth i fyw'n annibynnol gartref. Mae gŵr Betty yn byw gartref hefyd ac ef oedd gofalwr Betty nes iddo ddechrau cael problem gyda'i galon yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae darparwr preifat yn darparu gofalwr, Gweneira, a'r Awdurdod Lleol sy'n talu am hyn.

Bywoliaeth: Mae hi'n cael budd-daliadau ar gyfer pobl anabl.

Iechyd: Mae Betty yn cymryd tabledi sy'n sefydlogi'r tymer ac mae hi gryn dipyn dros ei phwysau. Mae'n treulio llawer iawn o'i hamser yn y gwely ac anaml iawn y bydd hi'n gadael y tŷ oherwydd nad yw'n gallu cael gafael ar gadair olwyn addas.

Diddordebau: Jig-sos, gwylio a bwydo'r adar, darllen nofelau, gwylio cwisiau gwybodaeth gyffredinol.

Yng ngeiriau Betty:

"Mae'n bedair wythnos ers i mi gael bath. Tynnodd Gweneira gyhyr wrth fy helpu'r tro diwethaf ac ers hynny, mae ei bos wedi dweud wrthi mai ond fy helpu i ymolchi caiff hi ei wneud. Rhywbeth ynghylch ei hamddiffyn rhag niwed yn y gwaith. Dydw i ddim eisiau hynny … Mae'n codi cywilydd arnaf fi a dydw i byth yn teimlo mod i'n hollol lân. Yn enwedig a'r tywydd yn poethi a finnau'n chwysu mwy na'r arfer.

Rydw i wedi gofyn i'r cyngor am gawod, ond dydw i ddim yn cael ateb call ganddyn nhw, hyd yn oed ar ôl gofyn am 2 flynedd. Mae hyn yn gwneud i mi a fy ngŵr deimlo'n isel. Mae angen i mi golli pwysau - wedyn efallai byddwn yn gallu mynd i mewn ac allan o'r bath fy hun. Byddwn hefyd yn gallu defnyddio cadair olwyn safonol ac yn gallu mynd allan o'r tŷ. Dydy'r tabledi rydw i'n eu cymryd ddim yn helpu, cofiwch. Rydw i'n magu pwysau wrth ddim ond edrych ar fwyd."

Astudiaeth Achos: Cartref Gofal

Non, 89

Teulu/ Tai: Mae hi'n byw mewn cartref gofal preswyl, dan ofal awdurdod lleol ym Mlaenau Ffestiniog. Mae ei mab, ei merch a'i 5 o wyrion ac wyresau yn byw yn yr un pentref ac mae un neu ragor ohonynt yn ymweld â hi bron bob dydd. Mae Non yn Gymraes iaith gyntaf ac yn cael ei gofal i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bywoliaeth: Arferai fod yn athrawes ysgol gynradd ac yn wniadwraig. Mae hi wedi ymddeol erbyn hyn.

Iechyd Corfforol: Da ar y cyfan. Mae Non yn falch iawn ei bod yn gallu symud yn dilyn llawdriniaeth i gael pen-glin newydd 10 mlynedd yn ôl.

Diddordebau: Cwrdd â ffrindiau mewn caffis lleol a mynd i ffeiriau crefftau pan fydd lifft ar gael.

Yng ngeiriau Non:

"Dwi'n byw yma ers 12 mlynedd a dwi wrth fy modd. Ro'n i'n meddwl y byddwn i'n treulio gweddill fy oes yma. Dwi'n gweld fy mab, fy merch, fy wyrion ac wyresau a fy ffrindiau bron bob dydd. Mae pob caiff yn ein hadnabod ni – maen nhw'n rhoi cacen am ddim i ni ar ddiwrnod ein pen-blwydd. Mae'n gymuned braf. Dwi'n hapus dros ben. Wel, mi ro'n i tan fis diwethaf. Maen nhw wedi dweud bod y lle 'ma ddim yn 'hyfyw yn ariannol mwyach' a'i fod yn mynd i gau. Maen nhw wedi dweud eu bod yn fy symud i Fetws-y-Coed. Symud fi? Pam dydw i ddim yn cael dweud fy marn i?

"Dwi ddim yn gwybod be wna i. Sut wnaiff fy nheulu gyrraedd yno? Does dim bysiau a hyd yn oed pe byddai bysiau ar gael, byddai'r daith yn cymryd amser hir. Does 'na neb yn siarad Cymraeg yn y lle newydd 'chwaith ac mae hynny'n bryder mawr arall i mi. Mae'r broblem gyda fy nerfau wedi dechrau eto a dwi wedi bod yn cael pyliau o banig. Dyma fy nghartref, dydw i ddim eisiau mynd. Dwi'n poeni fy hun yn sâl am y peth a bod yn onest."

Achos Cyfreithiol

Roedd Awdurdod Lleol yn Plymouth yn bwriadu cau cartref gofal preswyl i bobl hŷn oherwydd rhesymau ariannol. Daeth y preswylwyr ag achos yn erbyn yr awdurdod gan fynnu y byddai cau'r cartref yn torri eu hawliau dynol, gan gynnwys yr hawl i barchu bywyd preifat, bywyd teuluol a'r cartref. Eu dadl hwy oedd bod ganddynt ddisgwyliad rhesymol mai'r cartref fyddai'n gartref iddynt hwy am oes. Roedd y panel a oedd yn penderfynu ar eu hachos yn gytûn ac ni chafodd y cartref ei gau. Dywedodd y panel na ddylid defnyddio oedran pobl i gyfiawnhau cyfyngu ar eu hawliau.

R (ar gais Cowl ac eraill) v Cyngor Dinas Plymouth (2001)

O: http://www.ageuk.org.uk/documents/en-gb/for-professionals/equality-and-human-rights/older_people_human_rights__expert_series_pro.pdf?dtrk=true

Atodiad A: Diffiniadau o Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Mae **gwahaniaethu** yn golygu trin rhywun yn waeth nag un arall oherwydd nodwedd warchodedig (a elwir yn wahaniaethu uniongyrchol) neu roi rheol, polisi neu ffordd o wneud pethau ar waith sy'n cael effaith waeth ar rywun sydd â nodwedd warchodedig na rhywun sydd heb nodwedd o'r fath, pan na ellir cyfiawnhau hyn yn wrthrychol (gelwir hyn yn wahaniaethu uniongyrchol). Un enghraifft o wahaniaethu uniongyrchol yw gwrthod rhywun rhag cael triniaeth feddygol ar y sail eu bod yn 'rhy hen'. Un enghraifft o wahaniaethu anuniongyrchol yw peidio ag ymchwilio i gyflwr corfforol rhywun yn drylwyr oherwydd bod rhywun yn tybio mai arthritis sy'n gyfrifol am eu symptomau.

Mae **aflonyddu** yn cynnwys ymddygiad dieisiau yn ymwneud â nodwedd warchodedig sydd â'r diben neu'r effaith o dreisio urddas unigolyn, neu greu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol neu dramgwyddus i rywun sydd â nodwedd warchodedig. Un enghraifft o hyn yw cydweithwyr yn y gwaith yn gwneud hwyl am ben oed rhywun dro ar ôl tro, a'r unigolyn hwnnw'n teimlo bod hyn yn sarhaus. Byddai hyn yn berthnasol hefyd pe byddai'r unigolyn yn teimlo sarhad gan sylwadau yn ymwneud ag oedran rhywun maent yn gysylltiedig â hwy, fel partner.

Ystyr **erlid** yw trin rhywun yn anffafriol am ei fod wedi cymryd (neu, o bosib, am gymryd) camau dan y Ddeddf Cydraddoldeb, neu'n cefnogi rhywun sy'n cymryd camau.

Atodiad B: Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn 1991

Annibyniaeth

Egwyddor 1: Dylai pobl hŷn gael mynediad at fwyd, dŵr, cysgod, dillad a gofal iechyd digonol a hynny drwy ddarparu incwm, cymorth y teulu a'r gymuned a hunangymorth.

Egwyddor 2: Dylai pobl hŷn gael cyfle i weithio neu i gael mynediad at gyfleoedd eraill i gynhyrchu incwm.

Egwyddor 3: Dylai pobl hŷn gael cyfranogi wrth benderfynu pa bryd i dynnu'n ôl o'r gweithlu a pha mor gyflym y bydd hynny'n digwydd.

Egwyddor 4: Dylai pobl hŷn gael mynediad at raglenni priodol o addysg a hyfforddiant.

Egwyddor 5: Dylai pobl hŷn gael byw mewn amgylcheddau sy'n ddiogel ac a all gael eu haddasu at ddewisiadau personol a newidiadau mewn gallu.

Egwyddor 6: Dylai pobl hŷn allu byw gartref cyn hired ag y bo modd.

Cyfranogi

Egwyddor 7: Dylai pobl hŷn barhau i gael eu hintegreiddio yn y gymdeithas, cymryd rhan weithgar yn y gwaith o lunio a gweithredu polisïau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu lles a rhannu eu gwybodaeth a'u medrau â'r cenedlaethau iau.

Egwyddor 8: Dylai pobl hŷn gael chwilio am gyfleoedd a datblygu cyfleoedd i wasanaethu'r gymuned ac i wasanaethu fel gwirfoddolwyr mewn safleoedd sy'n briodol i'w diddordebau a'u gallu.

Egwyddor 9: Dylai pobl hŷn gael ffurfio mudiadau neu gymdeithasau i bobl hŷn.

Gofal

Egwyddor 10: Dylai pobl hŷn elwa o ganlyniad i ofal ac amddiffyniad gan deulu a chymuned yn unol â system gwerthoedd diwylliannol pob cymdeithas.

Egwyddor 11: Dylai pobl hŷn gael mynediad at ofal iechyd i'w helpu i gadw neu adfer y lles corfforol, meddyliol ac emosiynol gorau posibl ac i atal neu ohirio gwaeledd rhag cychwyn.

Egwyddor 12: Dylai pobl hŷn gael mynediad at wasanaethau cymdeithasol a chyfreithiol er mwyn sichrau mwy o annibyniaeth, amddiffyniad a gofal iddynt.

Egwyddor 13: Dylai pobl hŷn allu defnyddio lefelau priodol o ofal sefydliadol sy'n rhoi amddiffyniad, cyfle i adsefydlu ac ysgogiad cymdeithasol a meddyliol mewn amgylchedd gwâr a diogel.

Egwyddor 14: Dylai pobl hŷn allu mwynhau hawliau dynol a rhyddid sylfaenol wrth fyw mewn unrhyw gyfleuster lloches, gofal neu driniaeth, gan gynnwys parch llwyr i'w hurddas, eu credoau, eu hanghenion a'u preifatrwydd ac i'w hawl i wneud penderfyniadau yn ymwneud â'u gofal ac ansawdd eu bywydau.

Hunangyflawniad

Egwyddor 15: Dylai pobl hŷn gael dilyn cyfleoedd i ddatblygu eu potensial i'r eithaf.

Egwyddor 16: Dylai pobl hŷn gael mynediad at adnoddau addysgol, diwylliannol, ysbrydol ac adloniadol y gymdeithas.

Urddas

Egwyddor 17: Dylai pobl hŷn allu byw gydag urddas a sicrwydd ac ni ddylai neb fod yn cam-fanteisio arnynt nac yn eu cam-drin yn gorfforol nac yn feddyliol.

Egwyddor 18: Dylai pobl hŷn gael eu trin yn deg beth bynnag eu hoed, rhyw, cefndir hiliol neu ethnig, anabledd neu statws arall, a dylent gael eu gwerthfawrogi yn annibynnol ar eu cyfraniad economaidd.

Atodiad C: Deddf Hawliau Dynol 1998

Dyma'r hawliau sydd yn y Ddeddf Hawliau Dynol:

Erthygl 2: Yr hawl i fyw

Erthygl 3: Yr hawl i beidio â chael eich poenydio, na chael eich trin yn annynol na'n ddiraddiol

Erthygl 4: Yr hawl i fod yn rhydd rhag caethwasiaeth neu lafur gorfodol

Erthygl 5: Yr hawl i gael rhyddid

Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg

Erthygl 7: Yr hawl i beidio â chael cosb heb gyfraith

Erthygl 8: Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth

Erthygl 9: Yr hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd

Erthygl 10: Yr hawl i ryddid mynegiant

Erthygl 11: Yr hawl i ryddid i gynnull a chydgyfarfod

Erthygl 12: Yr hawl i briodi a sefydlu teulu

Erthygl 14: Yr hawl i beidio â chael neb yn gwahaniaethu yn eich erbyn yng nghyswllt unrhyw un o'r hawliau sydd yn y Confensiwn Ewropeaidd

Diffiniadau

Awdurdod Cyhoeddus

Mae'r term 'awdurdod cyhoeddus' yn cynnwys y GIG, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a llywodraeth leol, ranbarthol a chanolog, yn ogystal ag unrhyw un neu sefydliad sy'n perfformio 'swyddogaethau o natur gyhoeddus'.

Cymesuredd

Mae egwyddor cymesuredd wrth galon hawliau dynol. Wrth feddwl am benderfyniadau sy'n effeithio ar unrhyw un o'r hawliau cymwys, mae'n bwysig bod yr hawl yn cael ei chyfyngu cyn lleied ag y bo modd, dim ond mynd cyn belled ag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r nod cyfreithlon. Gall y cwestiynau canlynol helpu i bennu a yw gweithred gyfyngol yn gymesur ai peidio:

- Beth yw'r broblem sy'n cael sylw gan y cyfyngiad ar hawliau rhywun?
- A fydd y cyfyngiad yn arwain at leihau'r broblem?
- A oes ffordd arall lai cyfyngol ar gael ac a oes rhywun wedi rhoi cynnig ar honno?
- A yw'r cyfyngiad hwnnw'n golygu bod polisi cyffredinol i bawb neu a yw'n caniatáu i wahanol achosion unigol gael eu trin yn wahanol?
- A oes digon o sylw wedi'i roi i hawliau a buddiannau'r sawl yr effeithiwyd arnynt?
- A oes mesurau diogelu yn bodoli yn erbyn gwallau neu gamdriniaeth?
- A yw'r cyfyngiad yn dinistrio'r syniadau sylfaenol sydd wrth wraidd yr hawliau dynol dan sylw?